General Optical Council



# Cynllun Busnes Allanol 2026-27




# Gofal llygaid diogel ac effeithiol i bawb

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn rheoleiddio bron i 36,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr a rhai busnesau gofal llygaid ledled y DU.

Ein gweledigaeth yw gofal llygaid diogel ac effeithiol i bawb, a'n cenhadaeth yw diogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau uchel mewn gwasanaethau gofal llygaid.

Ein huchelgais o hyd yw bod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf, yn uchel ein parch ymysg rhanddeiliaid, ac yn parhau i ddiwallu holl Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA).

Dyma'r cynllun busnes ar gyfer 2026-27, sef yr ail yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2025-30 ac mae'n dangos sut byddwn yn diogelu'r cyhoedd ac yn sicrhau bod cofrestreion yn gallu cyflawni eu galluoedd proffesiynol llawn ymhob rhan o'r DU.



# Cyflawni ein cyfrifoldebau statudol

Rydym yn darparu cyfundrefn reoleiddio ystwyth, gadarn ac effeithiol sy'n diogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau uchel mewn gwasanaethau gofal llygaid, yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o safon, ac yn diwallu anghenion system iechyd y DU.

## Gosod safonau ar gyfer perfformiad ac ymddygiad cofrestreion

Ar ôl i'n Safonau ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi gael eu diweddaru y llynedd, byddwn nawr yn dechrau gweithio i adolygu'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol, gan gynnwys comisiynu ymchwil, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a datblygu newidiadau arfaethedig cyn cyflwyno cynigion i'r Cyngor.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru ein datganiad yn 2013 ar brofi golwg a safon goruchwyliaeth, gan wneud unrhyw newidiadau yn unol â'n hamcan strategol o gefnogi arloesedd cyfrifol a diogelu'r cyhoedd.

## Cynnal cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforedig sy'n addas i redeg busnes fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi

Eleni, rydym yn disgwyl cofrestru bron i 36,000 o unigolion a busnesau. Byddwn hefyd yn cyflwyno uwchraddiad mawr i MyGOC, sef ein llwyfan ar-lein i gofrestreion.

## Cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru

Ar ôl i'n Gofynion Addysg a Hyfforddiant gael eu cyflwyno, byddwn yn datblygu prosesau cofrestru rhyngwladol newydd i gefnogi ceisiadau i gofrestru gan weithwyr proffesiynol sydd wedi cymhwyso dramor.

Gan adlewyrchu aeddfedrwydd ein diwygiadau addysgol, rydym wedi cael ceisiadau i ddarparu cymwysterau newydd mewn opteg cyflenwi ac optometreg, a byddwn yn ystyried y rhain yn unol â'n prosesau statudol.

## Ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes

Byddwn yn parhau i wreiddio gwelliannau rydym wedi'u gwneud o ran cyflawni ein swyddogaeth addasrwydd i ymarfer, er mwyn gwella prydlondeb wrth ddatrys achosion ac wrth gyfathrebu â thystion a chofrestreion sy'n rhan o'r broses, a'r cymorth rydym yn ei ddarparu iddynt.



# Cefnogi cofrestreion i ddarparu gofal llygaid effeithiol

## Dyfnhau ein dealltwriaeth o'r sector

Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein harolygon blynyddol o gofrestreion a'r cyhoedd. Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i'n helpu i olrhain tueddiadau yn y sector, a gwyddom fod sefydliadau eraill yn eu defnyddio i ddeall y gweithlu gofal llygaid a disgwyliadau cleifion.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r sector gofal llygaid, gan gynnwys drwy ymweld â gwahanol bractisau a lleoliadau gofal ledled y DU.

## Defnyddio ein hymchwil i wella canlyniadau

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad terfynol ein hadolygiad thematig ar arferion masnachol a diogelwch cleifion, a fydd yn ein helpu i ddeall natur a maint yr arferion hyn a sut maent yn effeithio ar gleifion a'r cyhoedd. Bydd yr adolygiad yn nodi argymhellion ar gyfer camau gweithredu y gallwn ni neu'r sector ehangach eu cymryd i helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal llygaid diogel ac effeithiol i bawb.

Rydym hefyd yn bwriadu cwmpasu pynciau ar gyfer ail adolygiad thematig.

## Adolygu ein dull o bennu ffioedd cofrestreion

Byddwn yn cyhoeddi papur trafod ar sut rydym yn gosod ffioedd cofrestru, er mwyn gwella tryloywder a sicrhau sefydlogrwydd ariannol ar yr un pryd â bod yn deg ac yn gymesur â chofrestreion, gan gynnwys y rhai sydd ar incwm isel.

## Datblygu cynlluniau newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus

Byddwn yn parhau i weinyddu ein cynllun DPP, sy'n rhoi'r gallu i gofrestreion deilwra eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio eu gallu proffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd.

Byddwn yn cwblhau ein hymgynghoriad ar newidiadau i'r cynllun o 2028 ymlaen a'r tu hwnt, i foderneiddio ein gofynion DPP tuag at system fwy hyblyg a llai rhagnodol sy'n cynyddu'r gallu sydd gan gofrestreion i ymgymryd â dysgu a datblygu sy'n berthnasol i gwmpas eu hymarfer proffesiynol nhw ac sy'n cefnogi dilyniant gyrfa a chaffael cymwysterau ôl-gofrestru.



# Cyfrannu at ofal llygaid tecach a mwy cynhwysol a’r agenda gofal iechyd yn ehangach

## Cydnabod pwysigrwydd llais y defnyddiwr

Byddwn yn cwmpasu cynigion i gryfhau llais defnyddwyr gwasanaethau a chleifion ar draws ein swyddogaethau rheoleiddio, a fydd, gobeithio, yn arwain at well cydbwysedd rhwng dealltwriaeth broffesiynol, dealltwriaeth fasnachol a dealltwriaeth defnyddwyr wrth gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio. Bydd hyn yn rhoi anghenion cleifion a’r cyhoedd wrth galon ein dull rheoleiddio.

## Canllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial

Byddwn yn gwella dealltwriaeth o'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ym maes gofal llygaid ac wrth reoleiddio, a byddwn yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynny, ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth honno i greu canllawiau ar gyfer cofrestreion. Lle bo'n briodol, byddwn yn defnyddio deallusrwydd artiffisial i sicrhau enillion effeithlonrwydd mewnol yn ein prosesau busnes.

## Ymgysylltu â diwygio deddfwriaethol

Er na fydd ein deddfwriaeth bresennol yn cael ei diwygio yn ystod y Senedd hon, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a dylanwadu arni o ran diwygio deddfwriaeth rheoleiddio gofal iechyd er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau sydd ar y gweill.




# Cyflawni ein huchelgeisiau

Byddwn yn parhau â'n dyletswydd gyhoeddus a'n hymrwymiad i ddatblygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n sail i'n holl waith. Byddwn yn rhoi ein cynllun gweithredu uchelgeisiol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith i gefnogi ein strategaeth gorfforaethol. Byddwn yn cynnal gweithdrefnau llywodraethu cadarn, gan gefnogi gwaith ein Cyngor a'n pwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac yn nodi ac yn rheoli unrhyw risg yn briodol.  Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein staff, gan feithrin diwylliant atyniadol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn perthyn, gan gynnwys parhau i weithredu ein fframwaith perfformiad ac ymddygiad newydd.

## Ein cyllid

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2025-30, fe wnaethom hefyd lunio strategaeth ariannol i alluogi'r amcanion ariannol canlynol: objectives:

- Sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ariannol
- Tryloywder ac atebolrwydd mewn rheolaeth ariannol
- Cynnal cronfeydd wrth gefn priodol ar gyfer mentrau strategol a hapddigwyddiadau
- Darparu gwerth am arian i Gofrestreion
- Cynnal archwaeth risg isel i ganolig yn ein rheolaeth ariannol.

Bydd ein cyllideb ar gyfer 2026/27 yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i wrthbwyso diffyg arfaethedig, sy'n cyd-fynd â'n strategaeth ariannol pum mlynedd hyd at 2030. Nod y strategaeth hon yw cydbwyso ein hincwm a'n gwariant dros bum mlynedd ein cynllun corfforaethol, i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau hirdymor. Mae'r math hwn o gynllunio hirdymor yn golygu y gallwn sicrhau mwy o werth am arian i Gofrestreion, tra'n helpu i gadw cynnydd yn ffioedd Cofrestreion ar lefel is na chwyddiant.

| **Cyllideb 2026/27** | |
|---|---|
| | £'000 |
| Incwm | 13,095 |
| Gwariant (Busnes Fel Arfer) | 13,541 |
| Gwarged Gweithredu/Diffyg) (Busnes Fel Arfer) | (446) |
| Gwariant Prosiectau Strategol | 597 |
| Gwariant Costau Cyfreithiol Cymhleth | 110 |
| Costau seilwaith Gwariant | 30 |
| Gwarged / (Diffyg) cyn symud mewn cronfeydd wrth gefn (1183) | |
| Ariannwyd gan: | |
| Cronfeydd cyffredinol wrth gefn | 446 |
| Cronfeydd Strategol | 597 |
| Cronfeydd Cyfreithiol Wrth Gefn | 110 |
| Seilwaith/dadfeilio. Cronfeydd wrth gefn | 30 |
| | **1,183** |

Floor 29, One Canada Square
Canary Wharf
London E14 5AA
(0) 20 7580 3898
www.optical.org